# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38511, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 22 Hydref 2004

**At Nick Bourne:**

Yn ystod trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref, addewais ysgrifennu atoch ynghylch y cynnydd a wnaed ar ffyrdd osgoi Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy.

Yn fy ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig am y cynlluniau hyn (WAQ38420) a anfonwyd atoch ar 12 Hydref, roeddwn yn cadarnhau bod yr adroddiad gwerthuso rhagarweiniol o drafnidiaeth ar gynllun Llanfair-ym-Muallt yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn fuan. Rydym yn parhau i aros am yr adroddiad. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad eto wedi penodi ymgynghorwyr ar gyfer cynllun Rhaeadr Gwy oherwydd cystadleuaeth gan flaenoriaethau eraill am gyllid gwella cefnffyrdd.

Yn fy ateb, cyfeiriais hefyd at ein hadolygiad o flaenoriaethau a rhaglenni trafnidiaeth. Diben yr adolygiad yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â 'Cymru: Gwlad Well' a Chynllun Gofodol Cymru sy'n deillio o hynny. Yn dilyn canlyniad yr adolygiad hwn, rydym yn bwriadu diweddaru'r flaenraglen cefnffyrdd sy'n cynnwys Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy yn y Flwyddyn Newydd.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38545, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 2 Tachwedd 2004.

**At Nick Bourne:**

Ysgrifennaf atoch yn sgil y drafodaeth ymysg yr Aelodau yn dilyn cwestiwn Kirsty Williams ar 20 Hydref ynghylch bwriad BT i gael gwared ar 1,014 o flychau ffôn ledled Cymru.

Nodwyd gennych eich bod wedi codi'r mater gyda'r Prif Weinidog, gan ofyn a oedd unrhyw ddatblygiadau.

Fis Awst, ysgrifennodd y Prif Weinidog at Paul Hendron, pennaeth blychau ffôn BT, gan nodi nifer o bryderon a godwyd gan Aelodau ynghylch y polisi o gael gwared ar flychau ffôn. Yn sgil y llythyr hwnnw, cynigiodd Mr Hendron sesiynau briffio unigol i Aelodau ar 23 Medi. Daeth Mr Hendron a'i gydweithwyr i'r Cynulliad i wneud cyflwyniadau i Aelodau i amlinellu strategaeth BT ac i wrando ar eu sylwadau. Derbyniodd swyddog o'm hadran gyflwyniad hefyd ar fy rhan. Wedi i mi gysylltu â BT eto, ymestynnodd BT eu cyfnod ymgynghori hyd 8 Hydref er mwyn i Aelodau gyflwyno ymatebion ffurfiol.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau yn ystod Cwestiynau i'r Gweinidog, rydw i wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gyfathrebu, yr Adran Masnach a Diwydiant a BT i gyfleu'r pryderon a fynegwyd. Yn benodol, codais y pwyntiau am y diffyg signal, diogelwch y cyhoedd a'r ffaith bod pobl sy'n agored i niwed, megis plant a phobl sy'n cael eu cam-drin yn y cartref yn dibynnu ar flychau ffôn. Rydw i wedi gofyn i bob un o'r sefydliadau hyn ystyried y pryderon hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r broses hon. Rydw i hefyd wedi gofyn iddynt gyflwyno eu sylwadau i mi.

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am godi'r pwynt am bobl sy'n cael eu cam-drin yn y cartref, sy'n bwynt dilys iawn i'w chodi.

Rwyf wedi cael ar ddeall bod BT ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau manwl gyda'r awdurdodau lleol am bob blwch ffôn y cyflwynwyd achos i'w cadw yn ystod y broses ymgynghori. Wrth gwrs, mae BT yn sefydliad masnachol, ond rwy'n gobeithio y bydd yn cofio'r effeithiau cymdeithasol a chymunedol wrth wneud y penderfyniadau terfynol am gael gwared ar y blychau ffôn.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38559, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 12 Tachwedd 2004.**

**At Jocelyn Davies:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2004, addewais i ddarparu rhagor o wybodaeth am ariannu gwasanaethau cwnsela i bobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid craidd ar gyfer y math hwn o wasanaeth o dan y cynllun grantiau gwasanaethau trais yn y cartref.

Ar hyn o bryd rydym yn ariannu 'New Pathways', gwasanaeth cymorth gwirfoddol, a ddechreuodd fel llinell gymorth dros y ffôn ym 1993. Mae wedi tyfu'n sylweddol ers hynny, ac mae'r sefydliad erbyn hyn yn darparu cymorth hanfodol i bobl sydd wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol a theuluoedd y bobl hynny. Mae'r Cynulliad yn darparu cyllid craidd ar gyfer tair swydd o fewn y sefydliad. Ar hyn o bryd, mae'n rhan o raglen gyllid tair blynedd, ac mae wedi derbyn £61,801 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fel rhan o ddyfarniad y grant, rydym yn annog y sefydliad i ymestyn y gwasanaeth ledled Cymru ac mae swyddi allgymorth wedi eu trefnu ar gyfer Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

Mae New Pathways yn symud i adeilad mwy gyda saith ystafell cwnsela, gan gynnwys ystafell i blant, ystafell i bobl ifanc ac ystafell i deuluoedd. Ar yr un safle bydd canolfan gyfeirio ar gyfer materion rhywiol - y cyntaf o'i math yng Nghymru. Rwy'n bwriadu ymweld â'r adeilad newydd ym Merthyr Tudful yn y dyfodol agos.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38510, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 9 Tachwedd 2004**

**At Lisa Francis**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy ateb i'ch cwestiwn atodol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref am gyngor honedig a roddwyd i Gymdeithas Gweithredwyr Hunan-arlwyo Cymru gan Fwrdd Croeso Cymru ynghylch cofrestru llety fel tai amlfeddiannaeth.

Ni allaf wneud unrhyw sylw uniongyrchol ar yr honiadau hyn, oherwydd nid yw'r Gymdeithas wedi enwi'r swyddog o'r Bwrdd Croeso oedd yn gyfrifol am roi'r cyngor, ac nid wyf wedi gallu darganfod pwy oedd y swyddog. Fel yr eglurais yn fy ateb, rwy'n hyderus y byddai unrhyw ddatganiadau o'r fath wedi cael eu gwneud gan ddefnyddio’r diffiniad o dai amlfeddiannaeth a ddefnyddir yn Neddf Tai 1985.

Er hynny, mae'r canllawiau ysgrifenedig ar dai amlfeddiannaeth a ddarparwyd yn swyddogol gan y Bwrdd Croeso yn eu cyhoeddiad 'Arweiniad Ymarferol i Ddeddfwriaeth' yn egluro mai mater i'r awdurdod lleol ei ddehongli yw pennu llety twristaidd fel tai amlfeddiannaeth; a bod darparwyr llety yn cael eu cynghori i gael eglurhad ar eu sefyllfa gan y Swyddfa Iechyd yr Amgylchedd perthnasol.

Fel y dywedais ar y pryd, bydd unrhyw ddryswch o ran y diffiniad o dy amlfeddiannaeth yn cael ei egluro pan fydd y Mesur Tai presennol yn dod i rym. Mae'r meini prawf cyffredinol

wedi eu tynhau er mwyn sicrhau mai dim ond llety sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel prif gyfeiriad preswyl y deiliaid fydd yn cael ei ddiffinio fel ty amlfeddiannaeth.

**At Janet Davies:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy ateb i'ch cwestiwn atodol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref ynghylch cost ymgynghoriad y Bwrdd Croeso ar gynllun cofrestru gorfodol ar gyfer llety twristiaid yng Nghymru.

Mae'r costau wedi eu dosbarthu dros gyfnod o bedair blynedd fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Gwariant** | |
|---|---|---|
| 2000-01 | £16,000 | Ffioedd ymgynghori - ymchwil a llunio'r ddogfen ymgynghori cychwynnol. |
| 2001-02 | £22,000 | £18,500 costau cynhadledd (Llandudno a Chaerfyrddin)<br>£3,000 costau siaradwyr<br>£500 argraffu |
| 2002-03 | £17,000 | £10,000 cyhoeddusrwydd<br>£5,500 argraffu / postio<br>£1,500 ymgynghori |
| 2003-04 | £27,800 | Ffioedd ymgynghori - dadansoddiad a chynhyrchu'r adroddiad terfynol ar gyfer y Cynulliad. |
| 2004-05 | 0 | Dim gwariant hyd yma |
| **Cyfanswm** | £82,800 | |

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y gyllideb ddrafft ar 20 Hydref a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid ar 19 Tachwedd 2004**

**At Jenny Randerson:**

Yn y ddadl ar y gyllideb ddrafft yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref, codwyd pwynt gennych y dylai Aelodau'r Cynulliad gael eu briffio ar y gyllideb cyn y cyfryngau. Dyma a ddigwyddodd.

E-bostiwyd manylion y gyllideb ddrafft at holl Aelodau'r Cynulliad ymhell cyn i mi briffio'r wasg ar y mater. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ynghylch y gyllideb, o dan embargo, neu fel arall hyd nes i'r Aelodau dderbyn y dogfennau ar y gyllideb. Cafodd llefarwyr y gwrthbleidiau gyfle i gael eu briffio'n bersonol ar y gyllideb wedi i'r dogfennau gael eu dosbarthu i'r Aelodau, a chyn y gynhadledd i'r wasg. Cawsoch chi eich briffio yn y modd hwn. Rydw i wedi nodi ei fod yn bwysig cynnwys Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc yn y broses o bennu'r gyllideb. Roeddwn yn siomedig felly eich bod yn awgrymu fy mod wedi briffio'r cyfryngau cyn cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad. Nid oes unrhyw sail ffeithiol i hyn, ac mae perygl y gall yr hyn a ddylai fod yn drafodaeth ar y ffordd orau o ariannu blaenoriaethau strategol gael ei ddibrisio gan gyhuddiadau o'r fath.

Cafwyd cais gennyf hefyd i mi wneud cyhoeddiad blynyddol tebyg i'r hyn a wneir gan y Canghellor yn Nhy'r Cyffredin ar y diwrnod y caiff y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog i gynnig gael ei gyflwyno o leiaf pum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei drafod, ac y dylai'r gyllideb ddrafft gael ei gosod ar yr un pryd â'r cynnig perthnasol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried dogfen hir sy'n gallu bod yn dechnegol yn ofalus cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Os byddai cyhoeddiad yn cael

ei wneud yn y Cyfarfod Llawn ar y diwrnod y byddai'r gyllideb ddrafft yn cael ei gosod, gallai cyhuddiadau gael eu gwneud nad yw Aelodau'r gwrthbleidiau yn cael cyfle i baratoi'n llawn neu bod cynnwys y ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei ragweld.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38526, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 12 Tachwedd 2004**

**At Michael German:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref, gofynnwyd am eglurhad gennych ynghylch effaith bosibl y modelau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gyfer y map ardaloedd a gynorthwyir ar ôl 2006 ar ddinas Casnewydd.

Gallaf gadarnhau, yn ôl cynigion y Comisiwn, y byddai dinas Casnewydd yn colli ei statws fel ardal a gynorthwyir oherwydd nid yw wedi ei lleoli o fewn ardal NUTS 2 lle mae'r cynnyrch mewnwladol crynswth y pen, yn seiliedig ar ddata 2001, yn llai na 75 y cant o gyfartaledd naill ai yr EU15 neu'r EU25.

Bydd data CMC yn cael ei adolygu cyn i'r adolygiad o'r canllawiau cymorth rhanbarthol ddod i ben ac felly gallai sefyllfa Casnewydd newid. Er hynny, mae'n amlwg y gall Casnewydd, ynghyd â llawer o drefi a dinasoedd eraill o fewn y DU ac o fewn aelod wladwriaethau eraill yr EU15 golli eu statws fel ardaloedd a gynorthwyir os bydd cynigion y Comisiwn yn cael eu rhoi ar waith.

Oherwydd hyn, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ceisio nodi a hyrwyddo dulliau eraill y gallai'r Comisiwn Ewropeaidd eu defnyddio i lunio'r map ardaloedd a gynorthwyir. Mae'n sicr y byddwch yn ymwybodol nad oes llawer o le i ddylanwadu ar y modd y mae ardaloedd erthygl 87(3)a yn cael eu pennu. Mae dyfarniad llys o gyfnod yr adolygiad diwethaf yn gorchymyn bod yn rhaid i'r ardaloedd hyn gael eu mapio ar sail cyson ledled Ewrop. Mae hyn felly yn golygu mai dim ond ardaloedd NUTS3 y gellir eu defnyddio fel dewis amgen ar gyfer yr ardaloedd NUTS2 a gynigiwyd gan y Comisiwn.

Serch hynny, mae mwy o le i awgrymu dulliau amgen ar gyfer llunio map ardaloedd a gynorthwyir ar gyfer ardaloedd erthygl 87(3)c. Felly, mae'r Adran Masnach a Diwydiant a'r Trysorlys wedi argymell amrediad o ddewisiadau amgen i'r Comisiwn gyda'r nod o agor trafodaeth a cheisio ymestyn yr ardaloedd o'r DU sy'n cael eu cynnwys o dan erthygl 87(3)c. Mae'r dewisiadau hyn yn cynnwys y posibilrwydd o aelod wladwriaethau yn pennu eu hardaloedd eu hunain o dan erthygl 87(3)c, yn yr un modd â'r adolygiad diwethaf.

Gallai'r ymagwedd hon ganiatáu i'r aelod wladwriaethau unigol dargedu'r cymorth i lefelau gofodol is o lawer na'r NUTS3, er mwyn mynd i'r afael ag achosion llai o amddifadedd o fewn ardaloedd ehangach sydd yn fwy cyfoethog. Pe byddai'r Comisiwn yn derbyn dewis o'r math, gallai fod yn fanteisiol i ardaloedd megis Casnewydd oherwydd bod ardaloedd llai o amddifadedd yn cael eu cuddio oherwydd bod yr ardaloedd cyfagos yn fwy ffyniannus. Yn y cyd-destun hwn, mae Casnewydd ar lefel NUTS3, wrth gwrs ger ardal Mynwy, sydd yn fwy ffyniannus.

Byddwch yn deall mai dyma'r rheswm pam bod Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r dull a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn targedu cymorth yn well ar lefel ymarferol, er ei bod yn cefnogi amcan Lisbon o gael llai o gymorth gwladol ond wedi ei dargedu'n well. Yn fy marn i, mae'n briodol cynnal trafodaeth ar nifer o ddewisiadau er mwyn gweld pa un sydd orau i Gymru.